

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 8A (CARREG BRÂN) A  
CHEFNFFORDD YR A5 (THE LODGE I  
GYLCHFAN FFORDD PENTRAETH,  
PORTHAETHWY, YNYS MÔN) (GWAHARDD  
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS  
DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A55 a'r A5, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyffordd 8A (Carreg Brân) a Chylchfan Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A55 a'r A5 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 2 gam. Bydd ffordd ymadael tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 8A yr A55 ar gau yn ystod Cam 1. Bydd Cam 2 yn cynnwys cau darn o'r A5 Ffordd Caergybi.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Mai 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 3 – 12 Mai 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 8A  
(CARREG BRAN) & THE A5 TRUNK ROAD  
(THE LODGE TO PENTRAETH ROAD  
ROUNDAABOUT, MENAI BRIDGE, ANGLESEY)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES,  
CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 and A5 trunk roads between Junction 8A (Carreg Bran) and Pentraeth Road Roundabout, Menai Bridge, Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 and A5 trunk roads described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The works will be undertaken in 2 phases. The A55 Junction 8A westbound exit and eastbound entry slip roads will be closed during Phase 1. Phase 2 will involve the closure of a length of the A5 Holyhead Road.

The Order comes into force on 3 May 2022. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 3 – 12 May 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## YR ATODLEN

1. Y darnau o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 8A (Carreg Brân), Ynys Môn.

### Y llwybrau eraill

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno ymadael â'r A55 wrth Gyffordd 8A (i Borthaethwy) barhau hyd at Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge), ymadael a dilyn yr A5025 tua'r gogledd-ddwyrain a Ffordd Pentraeth tua'r de-ddwyrain i Borthaethwy.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno ymadael â'r A55 wrth Gyffordd 8A (i Lanfairpwll) barhau tua'r gorllewin ac ymadael wrth Gyffordd 7A (Llanfair Pwllgwyngyll).

Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 8A ddilyn yr A5 tua'r dwyrain drwy Borthaethwy ac ar draws Pont Menai i Gylchfan Ffordd Caergybi (Tafarn yr Antelope), Bangor a'r A487 tua'r de-orllewin i ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 9 (Treborth).

2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o The Lodge, i'r dwyrain o Gyffordd 8A hyd at ei chyffordd â Chylchfan Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn.

### Y llwybr arall

Dylai cerbydau sy'n dymuno teithio tua'r gogledd-ddwyrain tuag at Borthaethwy ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A hyd at Gyffordd 9, ymadael a dilyn yr A487 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Ffordd Caergybi, Bangor a'r A5 tua'r gogledd-orllewin i Borthaethwy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n dymuno teithio tua'r de-orllewin tuag at Lanfairpwll.

Sicrheir mynediad i breswylwyr eiddo o fewn y darn a fydd ar gau.

## SCHEDULE

1. The lengths of the A55 eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 8A (Carreg Bran), Anglesey.

### Alternative routes

Westbound traffic wishing to exit the A55 at Junction 8A (for Menai Bridge) should continue to Junction 8 (Pant Lodge Interchange), exit and follow the north-eastbound A5025 and south-eastbound Pentraeth Road to Menai Bridge.

Westbound traffic wishing to exit the A55 at Junction 8A (for Llanfairpwll) should continue westbound and exit at Junction 7A (Llanfair PG).

Eastbound vehicles wishing to join the A55 at Junction 8A should follow the eastbound A5 via Menai Bridge and the Menai Suspension Bridge to Holyhead Road Roundabout (Antelope Inn), Bangor and south-westbound A487 to join the A55 at Junction 9 (Treborth).

2. The length of the A5 trunk road that extends from The Lodge, east of Junction 8A to its junction with Pentraeth Road Roundabout, Menai Bridge, Anglesey.

### Alternative route

Vehicles wishing to travel north-eastbound towards Menai Bridge should join the eastbound A55 at Junction 8A to Junction 9, exit and follow the north-eastbound A487 to Holyhead Road Roundabout, Bangor and north-westbound A5 to Menai Bridge: vice versa for traffic wishing to travel south-westbound towards Llanfairpwll.

Access will be maintained for residents of properties within the length of the closure.